Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Felinfach

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Felinfach yn gymuned hapus, deuluol a chroesawgar. Mae’r staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar lle mae’r disgyblion yn gwrtais a pharchus. Mae'r ysgol yn lle diogel gyda’r athrawon a’r disgyblion yn ymgymryd â rôl gofalu am ei gilydd yn ddiwyd.

Mae gan y disgyblion agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd, digidol, creadigol a chorfforol yn dda ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a’i ddathlu’n ddeniadol o gwmpas yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw medrau darllen disgyblion ar frig yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith ar eu gallu i ysgrifennu’n ddigon cyfoethog a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o gyrhaeddiad pob disgybl, ac maent yn cynnig adborth da ar lafar sy’n cynnal y dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r sylwadau yn eu llyfrau yn cynnig arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

Mae athrawon yn cydweithio’n dda ag ysgolion yr ardal i gynllunio cwricwlwm cynhwysol a diddorol sy’n rhoi ystyriaeth lawn i ddiddordebau’r disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb gyda chwilfrydedd a chymhelliant ac yn dangos mwynhad at eu dysgu. Er hynny, nid yw disgyblion bob amser yn derbyn digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau dros eu dysgu ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae staff yn meithrin perthynas weithio gynnes a chefnogol â’r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda.

Mae’r ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol. Ar y cyfan, mae’r arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a’r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Maent yn ymateb yn dda i farnau’r rhanddeiliaid ac mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at y naws gynhwysol sy’n bodoli rhwng yr ysgol a’r gymuned ehangach. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bod yn Ysgol Felinfach, maent yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

# Argymhellion

**A1** Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar frig yr ysgol

**A2** Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi'r disgyblion i wella eu gwaith

**A3** Miniogi gweithdrefnau gwarantu ansawdd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Felinfach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 45 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw’n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 13.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 51.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/06/2004 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 05/10/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 04/12/2023 |
| Bydd ysgolion cynradd Felinfach, Dihewyd a Ciliau Parc yn uno i greu ysgol ardal yn Ionawr 2025. Maent wedi dechrau’r gwaith ar adeiladu’r ysgol newydd mewn cae sy’n agos iawn i Ysgol Felinfach. | |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.